Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Mynydd Bychan

**New Zealand Road**
**Gabalfa**
**Caerdydd CF14 3BR**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Mynydd Bychan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Mynydd Bychan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 237 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 178 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 37 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 4.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 3.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 8.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 30/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/12/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn gymuned gynhwysol a chefnogol dros ben, sy’n hyrwyddo ethos gofalgar yn llwyddiannus. Mae perthnasoedd gwaith clòs a thwymgalon yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy’n meithrin awyrgylch o ddysgu brwd ac ymdeimlad cadarn o berthnasedd i deulu’r ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac maent yn frwdfrydig iawn yn ystod gwersi a thasgau. Maent yn awyddus i gydweithio â’r staff a’i gilydd, ac o ganlyniad, i lwyddo fel dysgwyr hyderus ac uchelgeisiol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a chymwyseddau digidol pwrpasol a bron bob un yn gweithredu medrau cymdeithasol llwyddiannus.

Mae athrawon yn cynllunio’r cwricwlwm yn ddeallus sydd yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol iawn i ddisgyblion. Mae deilliannau disgyblion yn dda lle mae’r addysgu a’r adborth ar eu gwaith yn heriol a chyson. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn perthyn i’r ddarpariaeth ynglŷn â datblygu medrau rhifedd disgyblion ac adborth athrawon i dargedu’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion.

Mae staff yn cefnogi a gofalu am ddisgyblion yn gyson a chydwybodol iawn. Mae hyn yn cyfrannu at awydd disgyblion i ddysgu a dyfalbarhau â thasgau. Mae staff yn annog disgyblion yn llwyddiannus i gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain. Mae’r cymorth i hybu dysgu a lles disgyblion, a’u gallu i ddefnyddio’r gefnogaeth hon yn ystyrlon, yn nodwedd gref o’r ysgol. O ganlyniad, mae eu hymddygiad yn ardderchog.

Mae staff yn defnyddio’r adeilad yn gynhyrchiol i ddiwallu anghenion disgyblion yn fwriadus, ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol i hybu’r dysgu. Mae darpariaeth profiadau dysgu yn yr awyr agored yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar wella medrau disgyblion trwy weithgareddau sbardunol. Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol ac yn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol iawn sy'n bodoli gyda rhieni.

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn grefftus iawn ac yn ysbrydoli’r staff i sicrhau bod dysgu a lles disgyblion yn flaenoriaethau cyson. Mae hyn yn ganolog i’w gweledigaeth uchelgeisiol. Mae hi’n gweithio’n ddiwyd gyda’r staff a’r llywodraethwyr i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol, sy’n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol ac arloesol i ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn gwbl effeithiol gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso rheolaidd, trylwyr a chywrain. Mae gweithgareddau monitro’r ysgol yn arwain at gynlluniau gwella perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi cynhwysfawr i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod ansawdd adborth gan athrawon yn gyson er mwyn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy'n cyfateb i, neu'n uwch na, yr hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygu a'u hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau'n dda ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, gan ymateb yn frwdfrydig i gyflwyniadau. Mae medrau llafar y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu'r gallu i sgwrsio'n annibynnol, er enghraifft wrth fesur lefelau sain trwy ddefnyddio mesurydd data yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau llafar Cymraeg huawdl ac maent yn ymfalchïo yn eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio Saesneg yn hyderus gyda geirfa a phatrymau iaith eang. O ganlyniad, maent yn cyfathrebu'n llwyddiannus ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barnau yn glir ac aeddfed.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn dda gan egluro'r cynnwys â manylder. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen yn ystyrlon mewn cyd-destunau amrywiol. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn gywir a deallus. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft trwy ymchwilio i arwyr benywaidd ac amlddiwylliannol Cymru.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod eang o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, fel straeon creadigol am ddreigiau ac anghenfilod dychmygus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n gadarn ac yn dangos gafael sicr ar baragraffu a iaith ffigurol yn eu hysgrifennu estynedig. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn dda, er enghraifft wrth greu canllaw cymorth cyntaf ar sut i ymateb i wahanol

sefyllfaoedd argyfyngus. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn adeiladu'n synhwyrol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Yn y dosbarth derbyn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael dda ar ffeithiau rhif hyd at 20, ac ym Mlwyddyn 2, mae llawer yn hyderus wrth gyfrifo a bondio rhifau hyd at 100. Yn ogystal, maent yn llwyddo i ddisgrifio nodweddion a phriodweddau siapiau tri-dimensiwn yn gywir trwy greu rhwydi yn annibynnol a darganfod sfferau a silindrau o gwmpas yr ysgol. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio fformiwlâu yn hyderus i gyfrifo taldra sgerbwd ar sail hyd asgwrn penodol. Fodd bynnag, er bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth sicr o gysyniadau mathemategol, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol effeithiol. Maent yn mewngofnodi'n hyderus ar lwyfannau digidol i gael mynediad i'w gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn rhaglennu robotau electronig yn hyderus i ddilyn llwybrau penodol. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud defnydd da o feddalwedd addysgol, er enghraifft wrth godio i lunio siapiau ac animeiddio. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn gwneud dewisiadau doeth ynglŷn â'r offer a'r meddalwedd mwyaf effeithiol i'w hystyried at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o raglenni cyflwyno gwybodaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio sgrin werdd i greu hysbysebion ar gyfer busnesau lleol a chreu bas data a thaenlenni i gymharu cyflogau nyrsys ar draws y byd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu celf mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, mae'r disgyblion yn cydweithio'n dda i arlunio a ffilmio'r anifeiliaid sydd ar waliau castell Caerdydd a chreu cerflun o ddyn allan o frigau. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu creadigrwydd. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion hynaf yn cynllunio ac adeiladu melinau gwynt a datblygu eu medrau mynegiannol trwy greu cefnlenni cyn ffilmio eu dramâu.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos balchder a pharch at eu hysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn ethos cynhwysol a theuluol, sy'n elfen graidd o weledigaeth y pennaeth a'r staff. Maent yn gweithredu'r gwerthoedd, yr ymddiriedaeth a'r weledigaeth gytûn yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi bod staff yn eu parchu. Mae'r perthnasoedd llwyddiannus yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu ethos o gydweithio agos sydd wedi'i seilio ar 'Gytundeb Ysgol', sef, 'bydd barod, bydd ddiogel, bydd wych'.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwrtais a pharchus iawn wrth symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn ardderchog yn y dosbarthiadau heb anogaeth staff, ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd. Yn ogystal, mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein. Mae presenoldeb disgyblion yn dda, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn ymhyfrydu yn y ffaith bod staff yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau, a chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion sy'n aelodau o bwyllgorau amrywiol fel y 'Cyngor Ysgol' y 'Cyngor Eco', a'r 'Criw Iechyd a Lles' yn gwneud cyfraniadau effeithiol at fywyd dyddiol yr ysgol. Yn ogystal, mae'r 'Arweinwyr Digidol' yn gweithio gyda'u cyfoedion a staff er mwyn eu cefnogi i ddefnyddio apiau a llwyfannau digidol amrywiol. Yn ogystal, mae'r 'Criw Clên' a'r 'Criw Cymry Cŵl' yn chwarae gemau cymdeithasol a gwobrwyo disgyblion sy'n hybu'r Gymraeg yn gyson ar fuarth yr ysgol.

Mae bron bob un o'r disgyblion ag agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau athrawon ac yn canolbwyntio'n gydwybodol ar eu gwaith mewn gwersi. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn awyddus. Yn ogystal, maent yn cydweithio'n ddiwyd â'u ffrindiau ac oedolion, gan gynnig cymorth i'w gilydd o'u gwirfodd.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn canolbwyntio'n gyson am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos parch at eu gwaith, a gwydnwch a chymhelliant yn yr hyn maent yn ei ddysgu. Maent yn cydweithio â'u cyfoedion mewn parau neu grwpiau i ddatrys problemau heb gefnogaeth oedolion, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio'r dull 'Llwybr Llwyddo' wrth feddwl am sut i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth drafod eu gwaith ac maent yn barod i wrando ar farn a syniadau eraill yn ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel unigolion iach a hyderus, ac yn deall sut i wneud dewisiadau cywir mewn perthynas â diet a gweithgareddau corfforol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5, mae'r disgyblion yn cynnal gweithgareddau corfforol i fesur y gwahaniaeth yng nghynhwysedd eu hysgyfaint. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd a chyfleoedd i fwyta'n iach. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi ffitrwydd a gweithgareddau i ddatblygu eu medrau corfforol, fel sesiynau nofio a gymnasteg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio yng ngweithgareddau lles yr ysgol, fel y grŵp allgyrsiol lles a chlybiau amser cinio. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd pwrpasol o'r 'Gornel Dawel' a'r 'Ystafell Les', sy'n hyrwyddo eu lles emosiynol yn ddeallus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o sut i wneud penderfyniadau doeth i ofalu am eu lles.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiant fel rhan o'u gwaith ar amrywiaeth a hawliau plant. Mae bron bob un yn dysgu am werthoedd i gefnogi eraill yn llwyddiannus ac maent yn awyddus i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau difyr, yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n hyrwyddo diddordeb disgyblion yn effeithiol, er enghraifft am yr ardal leol wrth deithio ar fws aml lawr o gwmpas Caerdydd, wrth greu podlediad ynglŷn â hanes tswnami y brif ddinas ac wrth ddilyn taith yr afon Taf.

Mae athrawon yn annog disgyblion i rannu eu barnau'n bwrpasol am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Maent yn croesawu syniadau'r disgyblion ar ddechrau ac yn ystod themâu yn effeithiol iawn. Maent yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau disgyblion wrth gynllunio'n drwyadl i wella eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn defnyddio'u hawgrymiadau yn effeithiol wrth baratoi gweithgareddau, er enghraifft wrth ddarparu gweithgareddau difyr am draddodiadau carnifal Tre-biwt, cerddoriaeth reggae a hawliau dynol yn yr Unol Daleithiau. Mae disgyblion yn awyddus i rannu eu profiadau ag eraill am yr ardal leol, eu dinas a thu hwnt.

Mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth ofalus i amrywiaeth y byd a digwyddiadau byd-eang, fel sychder a newyn tra'n astudio newidiadau i'r hinsawdd. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a Chymreictod yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r holl staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn fwriadus ac mae'r staff yn cymell, cefnogi a mynnu bod disgyblion yn cyfathrebu ac ymateb yn y Gymraeg yn rheolaidd.

Ar y cyfan, mae medrau addysgu'r staff yn gadarn iawn. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn herio disgyblion yn gyson i gyflawni hyd orau eu gallu. Lle mae'r disgwyliadau'n uchel, mae rhediad a bwrlwm y gweithgareddau yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Ar y cyfan, mae cyflwyniadau i weithgareddau dysgu yn chwim, sy'n hybu brwdfrydedd ac awydd disgyblion i ymroi i'w gweithgareddau'n brydlon.

Mae'r berthynas waith rhwng staff a disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn addasu gweithgareddau dysgu'n effeithiol i ymateb i anghenion disgyblion, gan gynnwys y disgyblion sydd angen cymorth â'u gwaith. Mae cynorthwywyr yn darparu cefnogaeth dda i'r disgyblion, gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu iddynt gwblhau eu gwaith yn annibynnol.

Caiff disgyblion ystod o brofiadau pwrpasol i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion ddilyn cyfarwyddiadau a defnyddio cynhwysion dilys i greu cacennau yn y gegin fwd. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau trafod y gwahaniaeth mewn cyfeintiau blychau a phwysau nwyddau penodol yn effeithiol tra'n cydweithio'n frwdfrydig. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno maniffesto gwleidyddol diddorol ar sut i weithredu ar gyngor yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson. O ganlyniad, mae'r defnydd mwyaf effeithiol gan ddisgyblion o'u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, yn amrywio ar draws yr ysgol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu a dulliau da wrth ymateb i waith disgyblion. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu adborth yn fedrus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu'r disgyblion, ac i dargedu unrhyw anghenion yn brydlon. Yn ogystal, mae staff yn holi'r disgyblion yn dda ac yn darparu cyfleoedd priodol iddynt ymateb i adborth a sylwadau ysgrifenedig athrawon. Fodd bynnag, nid yw adborth yr holl athrawon yn adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon cyson i ddwysáu eu dealltwriaeth o'u gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu buddiol a diddorol lle defnyddir ardaloedd penodol yn bwrpasol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae staff yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu deniadol y tu mewn i'r adeilad i ysgogi a chynnig cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am beth a sut i ddysgu. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol, naill ai yn yr adeilad neu'r tu allan. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio'r cyfarpar dringo, yr ardaloedd plannu a'r llwyfan allanol yn ddeallus i ddarparu profiadau dysgu i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol ac artistig yn effeithiol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol iawn, ble mae staff yn annog disgyblion i gyfrannu at ei hethos cynnes a chyfeillgar yn fwriadus. Mae'r berthynas waith glòs rhwng y staff a'r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn nodwedd gadarnhaol o'r ysgol. Er enghraifft, mae gwaith diwyd y disgyblion hynaf, trwy ddefnyddio holiaduron i ddarganfod dyheadau disgyblion, wedi arwain at ailedrych ar sut mae'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hawliau.

Mae athrawon a chymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn arbennig o dda, gan ymateb yn synhwyrol a phrydlon i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Maent yn cyfrannu'n ddiwyd at strategaethau pwrpasol i reoli ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys y defnydd buddiol o grwpiau anogaeth, sy'n cefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol. Mae dulliau cydweithredol yr ysgol yn cyfrannu'n werthfawr at hapusrwydd ac awydd disgyblion i gymryd rhan yn eu gweithgareddau dyddiol. Mae'r cymorth hwn yn helpu bron bob disgybl i ymgartrefu'n rhwydd ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hadnabod ag ADY yn gadarn iawn. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n agos a chydlynol gydag aelodau eraill o staff, partneriaid allanol ac ysgolion lleol. Mae hyn yn sicrhau bod unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn cael eu hadnabod a'u cefnogi'n dda o oedran cynnar. Mae adolygiadau o gynnydd disgyblion yn golygu bod gan aelodau staff ddealltwriaeth glir o anghenion disgyblion. Mae staff yn rhyngweithio'n fuddiol ag ystod o wasanaethau i sicrhau adnoddau ychwanegol ac amserol er mwyn cynnig cymorth arbenigol i ddisgyblion ag ystod o anghenion dysgu, corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r trefniadau hyn, ynghyd â'r cymorth penodol a geir yn yr 'Ystafell Les' a'r 'Gornel Dawel', yn fuddiol iawn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, sy'n elwa ar gymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u cam datblygu a'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn datblygu cyfleoedd effeithiol iawn i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau i wella eu profiadau. Mae staff yn annog pob disgybl i ymgymryd â

rolau arweinyddiaeth yn effeithiol drwy amrywiaeth o grwpiau etholedig. Enghraifft dda yw gwaith ‘Senedd’ yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, sy’n arloesol. Mae’r ddarpariaeth hon yn ehangu dealltwriaeth disgyblion a’u datblygu’n ddinasyddion gweithredol sy’n gwerthfawrogi cyfraniadau unigolion i gefnogi a chynnal cymdeithas bwrpasol. Mae ‘Senedd’ yr ysgol wedi deisebu Llywodraeth Cymru yn galw arnynt i ariannu cyfleusterau hamdden am ddim i blant y genedl, er enghraifft.

Mae’r staff yn darparu ystod fuddiol o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth dda o’u hetifeddiaeth Gymreig. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo adnabyddiaeth y disgyblion o’u cynefin yn effeithiol trwy astudio hanes Owain Glyndŵr a chwedlau Cymru. Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant Cymreig yn effeithiol, er enghraifft trwy gynnal seremonïau’r eisteddfod, ysgrifennu ymson am blentyn yn ysgol Tryweryn a’r protestiadau i sefydlu sianel deledu Gymraeg. Mae’r gweithgareddau hyn yn annog y disgyblion i ymgysylltu’n frwdfrydig â diwylliant Cymru ac i deimlo’n falch o ethos cynhwysol yr ysgol o fewn ei chymuned Gymreig.

Mae staff yn rhoi pwyslais effeithiol ar ddarparu ystod amrywiol o deithiau ac ymweliadau sy’n cefnogi’r cwricwlwm ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn dysgu am fyd gwaith yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd iddynt astudio bywydau crefftwyr lleol, fel gemydd ac arlunwyr. Yn ogystal, mae’r disgyblion yn cynllunio i werthu cynnyrch yn yr wythnos byd busnes i gyfoethogi eu gwybodaeth am golled ac elw.

Mae staff yn galluogi’r disgyblion i wneud cyfraniadau cryf i’w cymuned. Defnyddiant y profiadau yn gadarnhaol fel bod disgyblion yn datblygu parch ac yn deall bod gofalu am eraill yn bwysig. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu bod gweithredoedd caredig yn gwneud gwahaniaeth i fywydau teuluoedd o fewn eu cymdogaeth a thu hwnt. Mae’r ysgol yn defnyddio sesiynau addoli ar y cyd yn llwyddiannus i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn cefnogi banc bwyd lleol trwy gasglu rhoddion yn eu dosbarthiadau i gefnogi ymgyrch eglwys gyfagos. Mae’r gweithgareddau hyn yn cyfrannu’n dda at gryfhau dealltwriaeth disgyblion bod cefnogi ei gilydd yn bwysig mewn cymdeithas ofalgar.

Mae prosesau’r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithlon. Mae staff yn cyfathrebu’n dda â’i gilydd ac asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion a’u teuluoedd i wella presenoldeb disgyblion. Mae staff yn deall eu rolau’n dda wrth gadw disgyblion yn ddiogel a chynnal ethos cynhwysol yr ysgol, fel mynd i'r afael ag unrhyw achosion o fwlio honedig yn dda. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu yn dda ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod dysgu a lles disgyblion wrth wraidd ei gweledigaeth. Mae hi’n canolbwyntio ar osod yr ysgol yng nghanol ei chymuned ac yn sicrhau bod llais disgyblion wrth galon y weledigaeth uchelgeisiol hon. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ei hathroniaeth ac mae staff yn gweithredu’n ddiwyd ar ddisgwyliadau arweinwyr.

Mae’r pennaeth yn annog staff i fodelu ymddygiadau a gwerthoedd cadarn a chyson. Maent wedi’u seilio’n uniongyrchol ar ethos gofalgar, sy’n anelu at fod o fudd i gymuned yr ysgol a bywydau’r disgyblion. Mae hi’n cymell disgyblion i gofleidio’u

hapusrwydd ac i chwarae rhan bwrpasol ym mhenderfyniadau allweddol yr ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod awyrgylch gynhwysol a gofalgar yn treiddio trwy'r ysgol.

Mae arweinwyr yn creu awyrgylch gefnogol iawn ymysg yr holl staff a'r disgyblion. O ganlyniad, mae staff a'r disgyblion yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol, 'O'r fesen derwen a dyf', ac yn gweithredu'n synhwyrol ar ddatblygu meddylfryd cytûn ar draws yr ysgol. Mae eu cymhellion cadarnhaol yn creu ethos o gydweithio brwd, sy'n cael effaith bwrpasol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu.

Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac mae'r pennaeth yn dwyn staff i gyfrif yn uniongyrchol am ansawdd ac effaith eu gwaith. Mae prosesau'r arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn drylwyr ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth ddilys a dibynadwy. Mae'r systemau bwriadus yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion a dadansoddi data am gynnydd disgyblion. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â gwella medrau ymchwiliol disgyblion trwy weithgareddau ymarferol a bywyd go iawn. Yn ogystal, mae arweinwyr yn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid eraill yn dda i lywio eu harferion. Er enghraifft, maent yn ystyried safbwyntiau rhieni ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau'n ddeallus, fel cyfathrebu'n well trwy ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwerthusiadau ac adolygiadau rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn creu darlun clir i arweinwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r cyswllt rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn gywrain. Mae arweinwyr yn defnyddio eu canfyddiadau'n effeithiol ac yn gosod targedau pwrpasol i wella arferion yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol gyda'r holl staff yn drwyadl, sy'n cynnwys gwiriadau rheolaidd ar ddiogelwch safle'r ysgol.

Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol. Maent yn adeiladu ar y perthnasoedd cryf sy'n bodoli â rhieni ac maent yn cydweithio'n dda i wella ansawdd yr amgylchedd ddysgu, fel ar y 'Diwrnodau Gwneud Gwahaniaeth'. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta'n iach ac yn yfed dŵr yn rheolaidd, ac yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu bocsys cinio.

Mae arweinwyr a staff yn gwneud y defnydd gorau o dir yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'r cyfarpar anturus yn effeithiol i feistroli tasgau corfforol fel dringo a chydbwyso. Mae'r ddarpariaeth allanol ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn gwbl bwrpasol. Mae hyn yn cyfoethogi eu cyfleoedd i ddatblygu eu medrau annibynnol trwy ystod eang o brofiadau dysgu.

Mae llywodraethwyr yn wybodus ac mae eu mewnbwn cadarnhaol a deallus yn creu gwelliannau pwrpasol ar draws yr ysgol. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o weithgareddau'r ysgol trwy deithiau dysgu a thrafod gwaith disgyblion ochr yn ochr â'r athrawon. Maent yn gefnogol iawn i'r pennaeth ac yn gweithio gyda hi a'r staff yn bwrpasol gan gwestiynu effaith eu gwaith fel ffrindiau beirniadol. Mae'r pennaeth yn eu cynghori'n realistig ac yn onest ar sut i wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i herio disgyblion i wella'u medrau gwyddonol a datblygu'r gweithgareddau asesu ymhellach.

Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio'n synhwyrol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant, fel buddsoddiadau mewn cyfarpar digidol ac adnoddau darllen. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddoeth i gefnogi ymweliadau preswyl ac i weithredu ymyriadau penodol ar draws yr ysgol gan staff, sy'n darparu cymorth buddiol i ddisgyblion wella'u dysgu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu effeithiol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol a chyfateb i'w hanghenion unigol. Mae'r rhain yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn effeithio'n dda ar ddatblygu medrau disgyblion, fel eu lles emosiynol.

Mae'r ysgol yn rhannu arferion effeithiol gydag ysgolion lleol, sy'n darparu cyfleoedd da i athrawon gymharu a rhannu eu profiadau â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cefnogi gallu'r ysgol i wella yn llwyddiannus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   08/02/2024